Hawdd ei Ddeall

Ebrill 2021

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**
*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*

# Cymhwystra ar gyfer Gwasanaethau a Thaliadau Uniongyrchol

Sut rydyn ni'n penderfynu pwy sydd angen gofal a chefnogaeth




Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru.**

Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **Ddeddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Rhan 4: Adran 32. Cymhwystra ar gyfer Gwasanaethau a Thaliadau Uniongyrchol.**

All Wales Forum
Fforwm Cymru Gyfan

## Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Mae hon yn ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bod geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd eu deall.

Gallwch edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 12.**

Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**
*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni,** mae hyn yn meddwl **Gogledd Cymru Gyna'n Gilydd.**

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Ffôn:**

**Gwefan:**

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales


Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols.**

Mae'r ddogfen i'w gweld yn https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=aZ9W9jTWYEixHoHk1luPyZw1J1OAxGpFrRmNL9CCXxRUNzZQM1ZQUENKWFNURlVaWEE3VzM4UUhJSi4u&wdLOR=cFB72F869-2F04-1043-85C0-3477BDE01802




## Cyflwyniad

Mae ar lawer o bobl yng Nghymru angen gofal a chefnogaeth gan wasanaethau.





Yng Nghymru mae gennym ni ddeddf sy'n cael ei galw'n **Ddeddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

Mae'r ddogfen i'w gweld yn **https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/social-services-and-well-being-wales-act-easy-read.pdf**




Mae'r ddogfen hon yn rhan o **Ddeddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.**




Mae'n fersiwn byr o'r adran sy'n cael ei alw'n Cymhwystra ar gyfer **Gwasanaethau a Thaliadau Uniongyrchol.**




Gallwch ddod o hyd i'r fersiwn cyfan o hwn ar wefan y llywodraeth **https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/section/32**



Mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru benderfynu pwy sy'n gallu cael help gyda'u gofal a'u cefnogaeth.



Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthych chi sut mae awdurdodau lleol yn penderfynu a allwch chi gael gwasanaethau gofal a chefnogaeth.

## Pwy sy'n gallu cael gwasanaethau cefnogi?




Mae Awdurdodau Lleol yn defnyddio **asesiad** i benderfynu a allwch chi gael help gan wasanaethau gofal a chefnogaeth.

Mae **asesiad** yn rhestr o gwestiynau i gael yr wybodaeth sydd ei hangen



Bydd yr **asesiad** yn cynnwys gwybodaeth am:

- Bethau sy'n digwydd yn eich bywyd




- Y nodau yr hoffech chi eu cyrraedd



- What might stop you reaching your goals



- Y pethau fuasai'n gallu eich rhwystro rhag cyrraedd eich nodau



- Eich cryfderau a'ch medrau.




Os ydych chi'n gymwys bydd eich Awdurdod Lleol yn gwneud **asesiad** ar wahân i weld a ydych chi'n gallu talu am eich gwasanaethau cymdeithasol.



Bydd eich Awdurdod Lleol yn siarad â chi ynghylch y mannau ble gallwch chi gael cefnogaeth i gyrraedd eich nodau.



**Er enghraifft:**

- Cefnogaeth sydd ar gael yn barod yn eich cymuned fel elusennau a grwpiau cymunedol.



- Cefnogaeth gan eich teulu, ffrindiau neu ofalwyr.




- Cefnogaeth gan y gwasanaethau cefnogi yn eich Awdurdod Lleol.




**Mae gwasanaethau cefnogi yr Awdurdod Lleol yn helpu pobl ag anghenion difrifol.**

**Er enghraifft, os ydych chi neu rywun rydych chi'n gofalu amdano:**



- â phroblemau iechyd corfforol



- â phroblemau iechyd meddwl



- mewn perygl oherwydd oedran



- yn anabl




- yn defnyddio cyffuriau neu alcohol



Byddwch yn cael eich **cam-drin** pan fydd rhywun yn eich brifo neu'n eich trin yn wael. Mae gwahanol fathau o gam-drin.

- yn cael ei gam-drin neu mewn perygl o gael ei gam-drin



- yn gofalu am rywun arall.




**Os oes arnoch chi angen help gan wasanaethau cefnogi, byddan nhw'n gofyn a oes arnoch chi eisiau:**

- i'r Awdurdod Lleol reoli eich gofal a'ch cefnogaeth neu



- rheoli eich gofal a'ch cefnogaeth eich hun â **Thaliadau Uniongyrchol.**

Mae **Taliadau Uniongyrchol** yn arian gan yr Awdurdod Lleol i'ch helpu chi neu eich gofalwr i reoli eich cefnogaeth.




**Fel oedolyn, plentyn neu ofalwr, efallai eich bod yn gymwys i gael gwasanaethau cefnogi a thaliadau uniongyrchol os:**

Nad ydych chi'n gallu cyrraedd eich nodau personol, os na fydd:




- Eich Awdurdod Lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chefnogaeth i gwrdd â'ch anghenion.



- Neu bod eich Awdurdod Lleol yn eich helpu i reoli eich anghenio trwy wneud **taliadau uniongyrchol.**

# Pobl sydd ag anghenion difrifol




Mae gan bobl sydd ag **anghenion difrifol** yr hawl i gael gwasanaethau cefnogi.



Er enghraifft, os ydych chi neu rywun rydych chi'n gofalu amdano:

- yn cael ei **gam-drin** neu sydd mewn perygl o gael ei **gam-drin** neu ei esgeuluso
- neu sydd mewn perygl o gael ei **gamdrin** neu ei niweidio oherwydd ei oed.




Mae'r ddeddf yn dweud y dylai bod dau **asesiad** gwahanol.




Mae'r **asesiad** cyntaf ar gyfer gweld a ydych chi'n gymwys ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol neu **daliadau uniongyrchol.** Mae'r ail **asesiad** ar gyfer gweld a ydych chi'n gallu talu am eich gwasanaethau cymdeithasol.



Bydd eich Awdurdod Lleol yn gwneud **asesiad** ariannol ar ôl gweld a ydych chi'n gymwys ai peidio.

Mae'r **asesiad** ariannol ar gyfer oedolion yn unig; nid oes ar blant angen ei gael.

## Cael mwy o wybodaeth




I gael mwy o wybodaeth gallwch fynd i:

**Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn:**
legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents

**Y Fframwaith Mesur Perfformiad yn:**
assembly.wales/laid%20documents/subId10272-e.pdf

**Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn:**
gov.wales/social-services-nationaloutcomes-framework

**Hyb Gwybodaeth a Dysgu CGC yn:**
socialcare.wales/hub/home

## Geiriau anodd

**Asesiad**
Rhestr o gwestiynau i gael yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch

**Cam-drin**
Byddwch yn cael eich cam-drin pan fydd rhywun yn eich brifo neu'n eich trin yn wael. Mae gwahanol fathau o gam-drin.

**Taliadau Uniongyrchol**
Arian gan eich Awdurdod Lleol i'ch helpu i ddewis a rheoli eich cefnogaeth.

PHOTO SYMBOLS®
Licence Number 690498011191

made with photosymbols®